

Cyngor Cymuned Llanystumdwy

Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar nos Iau, Ionawr 26ain, 2017 yn Ystafell Myrddin, Neuadd Goffa Chwilog.

Yn bresennol: Y Cyngorwyr Marian Evans, (Cadeirydd); Gwilym M Thomas, (Is gadeirydd); Naomi Jones; William Ifor Hughes; Dafydd Williams; Alwen Evans; Aled Lloyd Evans; Ifor Wyn Davies a'r Clerc.

1. Ymddiheuriadau. Y Cyngorwyr Margaret Griffith; Sian Angharad Parry; Tegid Jones; Thomas Prys Jones; Trefor Wyn Jones ac Anwen Jones.

2. Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar Ionawr 5ed, 2017 a chyfarfod y Pwyllgor Cynllun Busnes gyfarfu nos Iau Ionawr 19eg, 2017 yn Ystafell Myrddin, Neuadd Goffa Chwilog.

3. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen heblaw bod y Pwyllgor Cynllun Busnes yn argymhell gosod Praesept 2017/18 yn £15,000-, yr un fath â'r llynedd. Bydd angen talu am lenwi'r biniau halen o Hydref 2017 ymlaen a gall y Cyngor wynebu costau sylweddol gyda'r etholiad cyngorau cymuned a thref ym mis Mai 2017. Penderfynwyd derbyn yr argymhelliad.

4. Datgan buddiant personol. Y Cyngorwyr Marian Evans, Alwen Evans a Naomi Jones yn aelodau o Bwyllgor Mynwent Newydd Llanystumdwy sydd wedi gwneud cais am nawdd ariannol; rhif 11.7 ar y rhaglen waith.

5. Cyngor Gwynedd.

1. Gwasanaeth Cynllunio, Cytundebau 106. Penderfynwyd derbyn y llythyr yn trafod y gwahanol fathau o gytundebau 106 a'r linc at ddogfen baratowyd gan y Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2015.

2. Adran Cefnogaeth Gorfforaethol, Gwasanaeth Democrataidd, Swyddog Cefnogi Aelodau; Ymchwiliad Trefn Cynllunio Cyngor Gwynedd. Penderfynwyd ateb y cwestiynau.

3. Gwasanaeth Cynllunio, Swyddog Gorfodaeth Cynllunio; Adwy gyferbyn â cheg lôn Tyddyn Gwyn ar y ffordd rhwng Llanystumdwy a Rhoslan. Penderfynwyd derbyn yr ateb nad oes hawl gan yr Adran Gynllunio orfodi perchennog y tir adfer y clawdd i fel ag yr oedd cynt.

4. Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol); Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau. Y teimlad oedd bod y Swyddog wedi camdeall yr ymholiad a phenderfynwyd ail ysgrifennu i ofyn sut mae'r Aelodau Annibynnol yn cael eu hethol.

*Trwy ganiatâd y Cadeirydd:

5. Cynllunio; Ciosgs BT. Penderfynwyd cadarnhau penderfyniad mis Hydref 2016 sef *gwelwyd mai ychydig iawn o ddefnydd sydd ar y ciosgs erbyn hyn a'r penderfyniad oedd peidio gwneud unrhyw sylwadau sef derbyn y bydd y ciosgs yn cael eu symud.*

6. Rheoleiddio - Ffordd Dosbarth 111 gyferbyn â Fferm Bron Eifion, Llanystumdwy; Gwaharddiad Trafnidiaeth Trwodd Dros Dro. Derbyniwyd.

7. Adran Cefnogaeth Gorfforaethol; Cynhadledd Rheilffordd y Cambrian.

Penderfynwyd gofyn cwestiwn i Trenau Arriva Cymru:

Pam nad oes pass teithio am ddim ar gyfer yr henoed drwy'r flwyddyn yn hytrach nag yn ystod misoedd y gaeaf yn unig?
--

8. Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn; Cofrestr Newidiadau Materion sy'n Codi - Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd. Penderfynwyd gofyn i'r Cynghorwyr Margaret Griffith, Aled Lloyd Evans, Trefor Wyn Jones a Thomas Prys Jones roi sylwadau.

6. Cyngor Gwynedd – Cais Cynllunio yn y gymuned.

1. Cais Rhif C17/0003/41/LL – Cais i godi adeilad gardd; Llwyn Gwyn, Llangybi. Cefnogwyd.

7. Materion yn y gymuned.

Llanarmon

Rhoslan

Tynnu eich sylw at yr arwyddion newydd sydd wedi eu gosod ym mynedfa parc carafanau Tyddyn Morthwyl. Wedi sylwi arnynt ers tro ac mae ambell aelod o'r cyhoedd wedi lleisio'u barn arnynt hefyd. Mae dau arwydd wedi eu gosod - un bob ochor i'r fynyddfa. Maent yn fawr iawn o ran maint ac yn uniaith Saesneg.

Teimlad eu bod yn edrych yn hollol allan o le yng nghefn gwlad Eifionydd ac mi fuasai yn ddiddorol clywed barn eraill amdanynt.

Oes angen caniatad cynllunio i osod arwyddion o'r math yma?

Oes yna reol pa mor fawr y caniateir i arwyddion fod?

Oni ddylai arwyddion yn yr ardal yma fod yn ddwyieithog?

Teimlad hefyd os yw un parc carafanau yn cael gosod arwyddion mawr

Saesneg fel hyn, yna bydd llawer mwy o lefydd yn disgwyl cael yr un fath.

Penderfynwyd cysylltu gydag Adran Gynllunio Cyngor Gwynedd i ofyn am eu sylwadau. Ydi maint arwydd yn fater sydd yn cael ystyriaeth wrth roi caniatâd cynllunio ac ydi iaith sydd ar arwydd yntau yn fater sy'n cael ystyriaeth wrth roi caniatâd cynllunio? Teimlir bod yma beryg o sefydlu cynsail o ran maint ac iaith sy'n creu pryder i drigolion lleol.

Chwilog

Pencaenewydd/Sardis

Llangybi

Llanystumdwy

Materion Ariannol

8. Derbyn ad daliad o £612.50c, arian llwybrau gan Gyngor Gwynedd, taliad BACS. Penderfynwyd derbyn.

9. Adroddiad ariannol ar lafar. Rhoddodd y Clerc adroddiad fanwl o'r union sefyllfa ariannol, bod y gwariant yn unol â'r gyllideb bennwyd ac nad oes peryg o or wario a'r Cyngor yn mynd i ddyled. Dal i ddisgwyl anfoneb oddi wrth BDO (Swyddfa Archwilio Cymru) am yr archwiliad ariannol allanol.

10. Anfonebau angen eu talu:

a. Neuadd Llanystumdwy, £30-, defnydd o'r Neuadd i dri chyfarfod o'r Cyngor, taliad BACS. Penderfynwyd ei dalu.

b. Mr Gareth Jones, Caethro, am gadw safle bedd D Lloyd George yn daclus, tymor 2016, £250-, taliad BACS. Penderfynwyd ei dalu.

* Trwy Ganiatâd y Cadeirydd

c. Trefn, Hysbysfwrdd Llanybi, cyflenwi a gosod £143-, taliad BACS, hwn yn llai na'r pris gwreiddiol o £153.20c achos na fu rhaid talu am gludiant. Penderfynwyd ei dalu.

11. Ceisiadau am gymorth ariannol

1. Eisteddfod Gadeiriol Chwilog.
2. Mynwent Capel Helyg.
3. Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn 2017.
4. Dawns i Bawb.
5. Cymdeithas Parêd Dewi Sant, Pwllheli.
6. Shelter Cymru.
7. Mynwent Newydd Llanystumdwy.
8. Pwyllgor Mynwent Tai Duon.

*Trwy ganiatâd y Cadeirydd

9. Theatr Bara Caws.
10. Clwb Ffermwyr Ifanc Llanybi.

Mae rhain i gyd wedi cyflwyno cais drwy lythyr a mantolen ariannol.

Y canlynol wedi cyflwyno cais ond heb gyflwyno mantolen ariannol er gofyn am un.

1. Cylch Meithrin Chwilog, adroddiad banc yn unig (newydd ei gael).
2. Côr Eifionydd.
3. Cymdeithas y Byddar Gogledd Cymru.
4. Marie Curie.
5. Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen.
6. Macmillan Cancer Support.

Penderfynwyd peidio trafod y ceisiadau yma tan gyfarfod mis Mawrth.

Penderfynwyd ymhellach nad oes angen derbyn mantolen ariannol i fudiadau sydd gyda mantolen ar eu gwefan. **Mae'r Cadeirydd a'r Clerc wedi derbyn cyngor bod y penderfyniad yma'n torri'r rheolau a hyd yn oed yn anghyfreithlon.**

*Trwy ganiatâd y Cadeirydd:

12. Goleuadau Stryd ar gyffordd Penlon Trefor. Penderfynwyd anfon llythyr i Gyngor Cymuned Llanaelhaearn i gefnogi eu cais i gael goleuadau stryd ar gyffordd Penlon Trefor.

13. Arolwg Cynghorau Cymuned a Thref. Penderfynwyd peidio cymeryd rhan ar hyn o bryd.

It is possible to get a translation of any minute; contact the Clerk.

